Yr Adran Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon

Ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad o Siarter y BBC

EICH BBC EICH BARN

EICH BBC

Mae bron pawb ohonom yn gwylio neu'n gwrando ar y BBC. Mae'r BBC yn cyffwrdd bywydau'r rhan fwyaf ohonom bob dydd wrth i ni wylio rhaglenni chwaraeon fel Match of the Day, dilyn y newyddion yn ddyddiol, neu fwynhau rhaglenni comedi arloesol fel Little Britain. Ond nid oes llawer o bobl yn sylweddoli fod gan bawb lais yn y ffordd y mae'r BBC yn gweithio.

Ar hyn o bryd, caiff gweithgareddau'r BBC eu llywodraethu gan Siarter Frenhinol – dogfen sy'n siapio'r BBC, gan nodi ei bwrpas, yr hyn y mae'n ei wneud a sut y mae'n gwneud hyn. Ers 1927, cynhaliwyd adolygiad bob rhyw 10 mlynedd i weld sut y mae'r BBC yn gwasanaethu'r cyhoedd ac er mwyn ystyried ei ddyfodol.

Mae Siarter presennol y BBC yn dod i ben ar ddiwedd 2006. Felly yn 2004, fe wnaethom ofyn rhai cwestiynau allweddol i'r cyhoedd, megis beth rydych yn ei werthfawrogi fwyaf am y BBC a sut ddylai addasu i ymdopi â newidiadau mewn technoleg.

Dywed pobl y dylai'r BBC fod yn gryf ac yn annibynnol o'r Llywodraeth. Felly, bydd yn derbyn Siarter newydd am 10 mlynedd a byddwn yn parhau i'w ariannu trwy gyfrwng ffi'r drwydded teledu.

Ond mae pobl hefyd yn meddwl bod angen i'r BBC newid – i wneud yn siŵr bod ei raglenni o'r safon gorau posib ac er mwyn ei wneud yn fwy atebol i'r rhai sy'n talu am y drwydded.

Rydym wedi gwrando ar eich barn, a diolch i'ch ymateb, rydym eisoes wedi gwneud rhai penderfyniadau pwysig. Yn awr rydym wedi cyhoeddi papur arall (sef y Papur Gwyrdd), sy'n cynnwys rhai dewisiadau a chwestiynau penodol sydd wedi codi yn sgil yr hyn a ddywedwyd wrthym. Hoffem pe baech yn ateb y cwestiynau hyn. Bydd eich atebion yn help i bennu dyfodol y BBC.

EICH BARN

Y cyhoedd sy'n talu am y BBC; yn y dyfodol rydym am i chi chwarae mwy o ran yn y ffordd y mae'n cael ei redeg. Yn ein papur rydym yn nodi rhai o'r ffyrdd o geisio gwneud hynny.

Eich BBC chi ydyw; gwnewch yn siŵr eich bod yn lleisio'ch barn. Fe allwch wneud hynny trwy:

- Ymweld â'n gwefan yn www.bbccharterreview.org.uk. Mae'r wefan yn cynnwys nifer o gwestiynau, sy'n amrywio o a ddylai'r BBC helpu'r cyhoedd i ddefnyddio technolegau newydd i sut gall y BBC fod yn fwy atebol i chi, y rhai sy'n talu am y drwydded. Os na allwch ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn eich cartref, holwch staff eich llyfrgell leol. Fe fyddan nhw yn gallu eich helpu.
- Anfon e-bost atom yn: bbccharterreview@culture.gsi.gov.uk
- Ysgrifennu atom yn:
  BBC Charter Review
  Department for Culture, Media and Sport
  2-4 Cockspur Street
  London SW1Y 5DH
- Anfon ffacs atom ar: 020 7211 6330
- Gallwch hefyd ofyn am gopi o'r Papur Gwyrdd trwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad uchod, trwy ffonio 020 7211 6200 (Dydd Llun i ddydd Gwener yn unig) neu anfon e-bost at enquiries@culture.gov.uk

Diolch yn fawr, edrychwn ymlaen at glywed gennych erbyn dydd Mawrth 31 Mai 2005.

Yr Adran Diwylliant
Cyfryngau a Chwaraeon
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
PP 790 Chwefror 2005